- 4.3 Adnabod a rheoli'n briodol unrhyw beryglon amgylcheddol ar y mynyddoedd, gan gynnwys creigiau rhydd, llifogydd a mellt. Dylent allu delio â sefyllfa ddirybudd neu argyfwng pan brofir y peryglon hyn.
- 4.4 Adnabod a rheoli peryglon dŵr (er enghraifft corsydd, nentydd ac afonydd), gan gynnwys y gallu i:
 - 4.4.1 Paratoi a darparu gwybodaeth yn briodol i'r grŵp.
 - 4.4.2 Deall ac esbonio'r peryglon a'r dulliau i'w hosgoi.
 - 4.4.3 Dewis mannau croesi priodol
 - 4.4.4 Dewis technegau priodol heb raffau i helpu i groesi.

Gweithdrefnau brys

- 4.5 Gallu dewis pecyn cymorth cyntaf priodol ac offer ychwanegol ar gyfer y grŵp sy'n



addas ar gyfer yr amgylchedd a'r amodau cyffredinol.

- 4.6 Rheoli eu hunain a'r grŵp mewn gwahanol fathau o dywydd gan gynnwys gwres, oerfel, glaw a gwynt mawr.
- 4.7 Disgrifio sut i ddelio â mân anafiadau a phroblemau meddygol yn y mynyddoedd.
- 4.8 Esbonio achosion, symptomau, dulliau atal a thrin llosg haul, diffyg hylif, hypothermia ac anhwylderau gwres.
- 4.9 Cymryd camau priodol i sicrhau lles y grŵp a'r unigolyn clwyfedig os bydd digwyddiad neu ddam-wain gan gynnwys gwybod sut i gael cymorth priodol.
- 4.10 Meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o Achub Mynydd a sut y caiff ei drefnu.
- 4.11 Sicrhau diogelwch yr unigolyn clwyfedig nes y bydd cymorth yn cyrraedd.
- 4.12 Arddangos sgiliau gwersyllu mewn argyfwng.
- 4.13 Cynllunio a dilyn 'llwybrau dianc', gan ddefnyddio technegau priodol i bennu'r ffordd, at gymorth cyfagos.
- 4.14 Rheoli grŵp i gynnal ymgais chwilio ar raddfa fach.
- 4.15 Arddangos technegau achub byrfyfyr a'u cyfyngiadau.

Nodiadau canllaw i ymgeiswyr

Bydd Arweinydd Mynydd yn gallu adnabod a rheoli, drwy gyfuniad o waith cynllunio, y dewis o lwybr, arweinyddiaeth a rheoli grŵp, peryglon cyffredin a brofir o ran yr amgylchedd a'r tir ar daith yn y mynyddoedd.

Oherwydd natur ardaloedd mynyddig, mae angen i Arweinwyr Mynydd allu gweithredu'n ddiogel ar dir serth, naill ai drwy ddewis neu oherwydd bod amgylchiadau wedi eu gorfodi ar dir o'r fath. Mae Arweinwyr Mynydd effeithiol wedi treulio amser yn datblygu sgiliau barn a gwneud penderfyniadau da sy'n eu galluogi i ddewis llwybrau drwy neu o amgylch tir serth nad yw'n galw am ddefnydd bwriadedig o raffau, sydd y tu hwnt i gwmpas y cymhwyster hwn.

Mae gwaith rhaff wedi'i gynnwys yn y maes llafur oherwydd gallai sefyllfaoedd anrhagweladwy godi pan fydd angen defnyddio rhaff i ddiogelu aelodau'r grŵp. Pwysleisir nad yw'r technegau a ddefnyddir yn rhai addas ar gyfer dringo creigiau, er y gellir



trosglwyddo nifer o'r sgiliau, gan gynnwys defnyddio angorau, clymau a dulliau rheoli rhaffau priodol.

Gall sefyllfaoedd o argyfwng ddatblygu o ddam- weiniau neu gamgymeriadau barn. Bydd arweinwyr yn profi pwysau ychwanegol pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le a dylai fod ganddynt ymatebion addas a chlir ar gyfer unrhyw argyfwng ar daith. Mae'n bwysig bod dealltwriaeth gytbwys o beth yw argyfwng yn datblygu. Gallai parti ffit sydd â'r offer cywir, sy'n cael eu hoedi am ychydig oriau, greu problemau logisteg ond anaml iawn y bydd hyn yn cynrychioli argyfwng, ond dylid trin coes wedi torri fel argyfwng mewn unrhyw amgylchiadau.

Dylech fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer trefnu i achub os bydd angen a chydabod hefyd nad yw achub yn ddatrysiad o reidrwydd ar y pryd; dylech sicrhau bod gennych chi a'ch grŵp ddigon o offer i barhau ar y mynydd am gyfnod o amser.



Chapter 11 Hazards and risk management

Chapter 12 Specific hazards

Chapter 13 Dealing with incidents

Chapter 14 Dealing with injuries

Pwyntiau ymarfer allweddol

Dylech ymgyfarwyddo eich hun gyda strategaethau ar gyfer delio â pheryglon amgylcheddol neu ddŵr yn ogystal â sut i'w hosgoi.

Dylech ymarfer cynnal asesiadau risg deinamig sy'n cynnwys gwerthuso'r grŵp, y tir a'r amodau i nodi ac osgoi'r potensial o ganlyniadau difrifol.

Datblygu dealltwriaeth dda o sut a phryd i ddefnyddio'r sgiliau rhaffau a ddisgwylir gan Arweinydd Mynydd, gan dalu sylw yn benodol i'r dewis o lwybr, y dewis o angorau a chysylltiadau.

Datblygu eich dealltwriaeth o weithdrefnau achub drwy ymchwilio i sut i alw am y gwasanaeth Achub Mynydd a'r amserlenni posibl sydd ynghlwm â hyn: am ba hyd y gallai fod angen i chi a'r grŵp aros ar y mynydd? A oes gennych chi'r offer i ddelio â'r sefyllfa honno?



Cymhwysedd technegol



Bydd Arweinwyr Mynydd yn gerddwyr mynydd cymwys a fydd yn gallu darparu profiadau cerdded diogel i grwpiau ac unigolion dibrofiad. Er mwyn gallu cyflawni'r rôl hon yn effeithiol, byddant yn gallu:

5. Offer

- 5.1 Arddangos gwybodaeth o'r offer personol a'r offer ar gyfer y grŵp sydd ei angen ar gyfer teithiau cerdded yn ystod y dydd, gan ystyried yr amgylchedd a'r amodau tywydd cyffredinol.
- 5.2 Dewis bwyd a diod priodol ar gyfer teithiau cerdded dydd.
- 5.3 Arddangos dealltwriaeth o'r offer ychwanegol sydd ei angen ar arweinydd
- 5.4 Gallu pacio offer yn effeithiol at ddefnydd personol a defnydd y grŵp.
- 5.5 Arddangos dealltwriaeth o ddyluniad ac adeiladwaith offer, gan gynnwys nodweddion ei ddeunydd a sut i ofalu amdano a'i gynnal a'i gadw.



Nodiadau canllaw i ymgeiswyr

Fel Arweinydd Mynydd bydd eich gallu i gymhwyso eich hun yn briodol ar gyfer gwahanol fathau o amodau yn eich galluogi i gyflawni eich rôl yn effeithiol. O ystyried natur yr amgylchedd, yn benodol mewn amodau heriol, bydd eich dewis o offer yn cael effaith aruthrol ar lwyddiant y daith. Mae mireinio offer yn ofalus fel arfer yn golygu bod Arweinwyr Mynydd 'un cam ymlaen' yn arbennig mewn tywydd gwael, e.e. gorchuddio eitemau allweddol mewn gorchuddion gwrth-ddŵr dwbl neu bacio llochesi grŵp mewn dull hygyrch. Ni fydd Arweinwyr Mynydd yn gwneud unrhyw ragdybiaethau nac yn gadael pethau i siawns o ran y dewis o offer neu'r dulliau o'i bacio.

Rydych hefyd yn debygol o gynnig cyngor i gerddwyr dibrofiad ar y dewis o ddillad ac offer a'u haddasrwydd, a bydd angen i'r cyngor hwn ystyried y defnydd bwriadedig a'r gyllideb sydd ar gael; gall dewisiadau amgen llai drud berfformio bron cystal â dillad awyr agored drutach, wedi'u brandio a byddant yn fwy na digonol ar gyfer y rhai sy'n dechrau ar eu taith mewn amodau cymharol ddiniwed. Mewn amodau mwy heriol, bydd offer o ansawdd uwch yn talu ar ei ganfed ond nid oes angen iddynt fod yn ddrud serch hynny. Felly, mae gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o beth sydd ar gael ar y farchnad yn ddefnyddiol.

Dylai bwyd a diod ar gyfer y daith gerdded yn y mynyddoedd gyflawni'r ddau brif ofyniad sef dylent fod yn hawdd i'w cario a'u bod yn darparu egni digonol. Bydd bwyd a diod priodol yn amrywio yn ôl hyd disgwylledig y daith, gwerth maethol y bwyd yn ogystal â'i bwysau a'i faint. Bydd dealltwriaeth o hanfodion maetheg yn eich galluogi i gynnig cyngor ar fanteision gwahanol fathau o fwydydd.

Er na ddylai'r arweinydd gael ei orlethu, mae'n bwysig bod rhywfaint o offer ychwanegol yn cael ei gario ar gyfer amgylchiadau annisgwyl. Mae'n bosibl y gellir darparu rhyw fath o gymorth i eraill yn ogystal â gorfod delio ag anghenion yn eu grŵp eu hunain. Gellir rhannu'r offer hwn rhwng y grŵp os bydd hynny'n briodol a gallai gynnwys dillad ychwanegol, bwyd ychwanegol, lloches grŵp a bag Storm Eira (neu debyg), rhaffau argyfwng a pholion cerdded.



Chapter 4 Clothing and equipment

Chapter 5 Living in the mountains

Pwyntiau ymarfer allweddol

- Ewch ar deithiau cerdded mewn tywydd garw! Gallwch werthuso eich offer yn ystod ac ar ôl y daith gerdded er mwyn asesu ei effeithiolrwydd o ran eich cadw'n gymharol gyfforddus.



- Dylech baratoi rhestrau amrywiol o offer ar gyfer gwahanol deithiau cerdded ar wahanol adegau o'r flwyddyn, gyda rhagolygon gwahanol, gyda grwpiau amrywiol a lleoliadau amrywiol.
- Cadwch olwg am ddillad ac offer am bris gostyngol a cheisio gwerthuso ei effeithiolrwydd. Gellir prasio rhestr offer i gerddwr dibrofiad gyda gwahanol gyllidebau mewn golwg.



6. Sgiliau cerdded

- 6.1 Arddangos arfer da o ran sgiliau cerdded unigol: cyflymder, rythm, lleoliad traed, cadw egni, cydbwysedd a chydsymudiad.

Nodiadau canllaw i ymgeiswyr

Mae cerdded ar draws tir anwastad, serth neu greigiog yn gyffredin yn y mynyddoedd a gall fod yn sgil newydd i rai cyfranogwyr. Fel Arweinydd Mynydd, mae'n bosibl y bydd angen i chi ddarparu rhywfaint o hyfforddiant neu gefnogaeth i aelodau eich grŵp ynglŷn â sut i symud yn ddiogel ac effeithlon. Mae creigiau sydd wedi'u gorchuddio â chen, sgri a bryniau wedi'u gorchuddio â thwmpathau glaswelltog yn darparu heriau symud gwahanol i groesi camfa a bydd eich arweiniad chi yn amhrisiadwy i gerddwyr dibrofiad neu nerfus.



Eich cyfrifoldeb chi yw cyflymder y daith gerdded a gellir defnyddio gwahanol strategaethau yn ddibynnol ar faint ac aelodaeth y grŵp a'u lefelau ffitrwydd cymharol. Bydd cyflymder addas, sy'n seiliedig ar fformiwla amseru briodol ar gyfer y grŵp, yn helpu i sicrhau nad yw cerddwyr dibrofiad yn cerdded yn rhy gyflym; yn arbennig os ydynt yn cerdded ar i fyny. Mae'n bwysig bod ystyriaeth gywir o alluoedd y grŵp yn cael ei chynnwys yn hyn. Ceisiwch gynnal cyflymder sy'n galluogi i chi siarad ag eraill wrth symud; a bydd hyn yn eu galluogi i siarad gyda chi hefyd



Chapter 1 Movement skills and route finding

Pwyntiau ymarfer allweddol

- Rhwng yr hyfforddiant a'r asesiad ceisiwch gael digon o ddyddiau cerdded llawn; yn ddelfrydol wrth i chi gario'r offer y gallai fod ei angen arnoch fel arweinydd grŵp.
- Dylech fesur eich cyflymder ar y dechrau i ddatblygu dealltwriaeth o ba mor gyflym rydych chi'n symud dros fathau penodol o dir.
- Dylech ystyried pa gyngor y gallech ei roi i rywun sy'n croesi cae bach o glogfeini am y tro cyntaf. Pa wybodaeth allai eu helpu i deimlo'n fwy cyfforddus?





Dylai Arweinwyr Mynydd allu dewis o wahanol dechnegau a dewis y rhai sy'n briodol i'r tir a'r amodau. Dylent allu:

7. Pennu'r ffordd

- 7.1 Pennu'r ffordd gan ddefnyddio mapiau a ddefnyddir yn gyffredin a deall y defnydd o raddfeydd a symbolau.
- 7.2 Arddangos dealltwriaeth o sut y defnyddir cyfuchliniau a dulliau cartograffeg eraill i gynrychioli cymorth a'u defnyddio i bennu'r ffordd yn effeithiol dros y tir. Gallu adnabod nodweddion topograffig yn y tirlun.
- 7.3 Cysylltu'r map i'r ddaear ac i'r gwrthwyneb. Adnabod nodweddion allweddol yn y tirlun a'u nodi ar y map.
- 7.4 Pennu'r ffordd yn gywir ar draws gwlad gyda map yn unig.
- 7.5 Gallu adleoli'n effeithlon mewn gwahanol sefyllfaoedd. Darparu cyfeirnod grid chwe ffigwr wrth wneud hynny.
- 7.6 Mesur pellter yn gywir ar fapiau amrywiol a chyfrifo faint o amser y bydd yn ei gymryd i fynd o un lleoliad i un arall.
- 7.7 Mesur yn effeithiol y pellter sy'n cael ei deithio ar y ddaear gan ddefnyddio technegau priodol ar dir cymhleth, gan gynnwys amseriad cywir.
- 7.8 Defnyddio cwmrawd yn effeithiol i bennu'r ffordd ar dir cymhleth.
- 7.9 Pennu'r ffordd yn gymwys mewn gwelededd gwael oherwydd amodau tywydd neu dywyllwch.
- 7.10 Esbonio a defnyddio'r wybodaeth a roddir ar fapiau ynghylch hawliau tramwy a mynediad i dir.
- 7.11 Disgrifio buddiannau a chyfyngiadau defnyddio dyfeisiau GPS llaw.

Nodiadau canllaw i ymgeiswyr

Mae'r gallu i bennu'r ffordd yn sgil allweddol wrth gerdded mynyddoedd ac mae'n rhaid i arweinwyr fod yn hyderus o'u llwybr waeth pa mor gyfyngedig yw gwelededd. Mae'n bwysig eich bod yn gallu pennu'r ffordd yn effeithlon, yn gywir a hyderus a gallu parhau i ofalu am y grŵp, osgoi peryglon a gwneud y daith yn un ddiddorol yr un pryd. Mae gan Arweinwyr Mynydd y fath feistrolaeth ar bennu'r ffordd, dylent allu lleoli unrhyw



nodwedd ar fap neu ar y tir ac adleoli mewn unrhyw leoliad bryn neu fynydd.

Bydd eich profiad hefyd yn eich helpu i allu pennu'r ffordd yn fwy medrus wrth i chi ddewis y dechneg gywir yn hyderus i weddu'r tir a'r lefel o welededd.

Er enghraifft, byddai cerdded ar gyfeirlin mewn gwelededd da tra ar nodwedd tir diffiniedig yn amhriodol; byddai cyfeirio'r map i'r ddaear yn dechneg fwy addas. I'r gwrthwyneb gallai ceisio darllen map ar draws llwyfandir dinodwedd mewn gwelededd gwael achosi i'r arweinydd ddrysu ac yma byddai'r dechneg o gerdded ar gyfeirlin yn fwy priodol.

Mae cyfeiriannu yn ddull defnyddiol a hygyrch o hyfforddiant meicro-lywio ond rhaid i chi gofio bod y defnydd hwn o sgiliau llywio yn wahanol i'r hyn sy'n ofynnol gan fynyddwyr.



Chapter 2 Navigation tools

Chapter 3 Navigation techniques

Pwyntiau ymarfer allweddol

- Pennu'r ffordd ar draws tir anghyfarwydd pryd bynnag y bo'n bosibl; bydd yn datblygu eich barn fynydda.
- Datblygu eich sgiliau arsylwi er mwyn eich cynorthwyo i adleoli.
- Sicrhau eich bod yn gyfforddus yn defnyddio amrywiaeth o raddfeydd mapiau e.e. mapiau graddfeydd 1:25,000, 1:50,000 a 1:40,000 ym mhob math o amodau.
- Datblygu eich cof mapiau.





Sgiliau alltaith



Bydd Arweinwyr Mynydd yn gallu goruchwyllo grŵp sy'n gwersylla ar y mynydd ac addysgu gweithgareddau refft gwersylla. Byddant yn gymwys yn bersonol mewn ystod o dechnegau crefft gwersylla ac yn gallu arddangos a hyfforddi gwersyllwyr dibrofiad yn effeithiol yn y rhain. Byddant yn gallu:

8. Sgiliau alltaith

Offer

- 8.1 Dewis a defnyddio amrywiaeth o bebyll, sachau cysgu, matiau cysgu ac offer gwersylla arall yn briodol.
- 8.2 Dewis, pacio a chario offer personol ac offer y grŵp ar gyfer gwersylla dros nos.

Bwyd gwersylla a choginio

- 8.3 Dewis bwyd a diod a chynllunio bwydlenni gan ystyried gwerthoedd maethol.
- 8.4 Arddangos dealltwriaeth o ystyriaethau hylendid bwyd ar gyfer storio, paratoi a choginio bwyd.
- 8.5 Dewis a defnyddio stofiau a thanwydd yn ddiogel.



8.6 Rheoli'r risg o dân wrth goginio gyda grŵp.

Cynllunio a goruchwyllo

8.7 Dewis a threfnu ardal wersylla a'r pebyll unigol ynddi (ar waelod dyffrynnoedd ac mewn lleoliadau anghysbell).

8.8 Nodi a rheoli unrhyw beryglon yn yr ardal wersylla.

8.9 Rheoli hylendid yr ardal wersylla.

8.10 Rheoli grŵp wrth ddefnyddio gwahanol fathau o lety – byncws, bothi, meysydd gwersylla cyhoeddus a gwyllt.

8.11 Arddangos dealltwriaeth o wersyllu.

8.12 Ymgorffori agwedd effaith leiaf tuag at wersylla.

Nodiadau canllaw i ymgeiswyr

Mae'n rhaid i Arweinwyr Mynydd fod yn wersyllwyr cymwys eu hunain a gallu rheoli grwpiau sy'n gwersylla mewn gwahanol amgylcheddau o fewn cwrmpas y cynllun. Gallai hyn gynnwys goruchwyllo grŵp mewn lleoliad penodol neu gynnal alltaith am fwy na diwrnod. Cydnabyddir y gallai problemau mewn lleoliadau anghysbell fod yn fwy difrifol na'r rhai sy'n digwydd mewn amgylcheddau llai anghysbell. Mae'n rhaid i Arweinwyr Mynydd gadw hyn mewn cof wrth gynllunio taith.

Wrth gynllunio alltaith ar gyfer neu gyda grŵp, mae yna rai ystyriaethau sylfaenol i'w hystyried, er enghraifft y pellter o gymorth, peryglon y safle a'r tir, beth fydd amodau'r tywydd a'r ddaear a'r adnoddau angenrheidiol (offer, bwyd ac yn y blaen). Os byddwch yn gwersylla ar safleoedd wedi'u trefnu neu gyda chaniatâd penodol y tirfeddiannwr, bydd rhai materion mynediad i grŵp eu hystyried ar wahân i wneud yn siŵr eu bod yn cael yr effaith leiaf ar y safle. Mae gwersylla gwyllt yn fwy cymhleth o bosibl, oherwydd mae mynediad caniatol yn amrywio rhwng Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Unwaith eto, mae strategaethau i leihau effaith yn hollbwysig er mwyn diogelu bregusrwydd yr amgylchedd a sicrhau mynediad yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth gadarn am offer gwersylla yn hollbwysig i'r rôl. Fel arweinydd gallwch gynnig cyngor hefyd i wersyllwyr dibrofiad ar y dewis o offer a'i addasrwydd, ac ni fyddai'n bosibl gwneud hyn os nad oes gennych wybodaeth a dealltwriaeth briodol eich hun. Bydd eich gwybodaeth yn eich galluogi i argymhell offer priodol i grwpiau yn eich gofal, gan gofio'r amodau disgwyledig a'r gyllideb sydd ar gael.



Un maes hanfodol y dylai fod gennych wyboda- eth fanwl amdano yw dyluniad, adeiladwaith a nodweddion gwahanol fathau o bebyll. Mae'n bwysig gallu cyfateb pebyll priodol ag amgylcheddau penodol, tywydd a grwpiau yn ogystal â gallu arddangos sut i osod gwahanol fathau o bebyll yn effeithlon a sefydlog. Mae gan wahanol ddyluniadau ac arddulliau o bebyll eu manteision a'u hanfanteision eu hunain. Yn sicr, mae dulliau pacio a gofal am bebyll, gan gynnwys 'atgyweiriadau dros dro' bron yr un mor bwysig â gallu eu gosod yn briodol. Dylid ystyried gofynion cynnal a chadw a dewis ategolion priodol, er enghraifft rhaffau tynhau a phegiau hefyd. Gall cyfateb matiau a sachau cysgu â'r amodau a ragwelir osgoi cario gormod o bwysau yn ystod yr haf neu dreulio noson yn rhynnu ar ddiwedd yr hydref.

Mae coginio a bwyta wrth wersylla yn darparu cyfleoedd cymdeithasol a meithrin tîm gwerth- fawr i grwpiau a'u harweinwyr. Mae hefyd yn gyfnod llawn heriau y mae angen i Arweinydd Mynydd eu rheoli. Mae treulio amser gyda'ch grŵp ymlaen llaw, yn cynllunio pa fwyd y byddant yn ei goginio, pa stofiau a thanwydd i'w defnyddio yn fuddiol iawn.

Mae stofiau yn amrywio o rai ysgafn, bach i'w defnyddio ar daith aml-ddiwrnod i opsiynau mwy sy'n fwy addas ar gyfer meysydd gwersylla sydd â mynediad i gerbydau. Mae gan bob un ohonynt eu cryfderau a'u gwendidau a pha mor addas ydynt i wersyllwyr dibrofiad, gan ystyried materion fel sefydlogrwydd, diogelwch tanwydd, rhwyddineb ail-lenwi â thanwydd a chost. Ar gyfer y mathau mwyaf cyffredin o stofiau, dylai fod gennych syniad clir o sut i addysgu arfer da i wersyllwyr dibrofiad, gan ystyried eu profiad a'u cyfrifoldeb.



Chapter 5 Living in the mountains

Pwyntiau ymarfer allweddol

- Dylech ymarfer codi gwahanol fathau o bebyll. Gwnewch ymchwil i weld pam fod gwahani- aethau yn y dyluniad neu'r nodweddion cyffredinol.
- Dylech ystyried sut y gellir rhannu offer rhwng grŵp a pha ffactorau fydd yn dylanwadu ar bwy sy'n cario beth.
- Ymchwiliwch i ddulliau sy'n ystyriol o'r amgylchedd a gadael dim olion o gwbl o ran glanhau'r eitemau a ddefnyddir ar gyfer coginio. Pa systemau y gellir eu defnyddio ar gyfer pacio unrhyw wastraff bwyd?



Sgiliau addysgu a dysgu



Dylai Arweinwyr Mynydd allu addysgu eraill a hyrwyddo dysgu i sicrhau mwynhad wrth gerdded yn y mynydd- doedd. Dylent allu:

9. Sgiliau addysgu a dysgu

- 9.1 Arddangos gallu i addasu'r arddull addysgu i gyflawni anghenion y grŵp.
- 9.2 Nodi a defnyddio tasgau priodol i ddatblygu gweithgarwch grŵp diogel.
- 9.3 Arddangos dealltwriaeth o'r rhesymau dros werthuso taith a llwyddiant y canlyniad.

Nodiadau canllaw i ymgeiswyr

Mae angen i Arweinwyr Mynydd greu amgylchedd o ymddiriedaeth a hyder yn gyflym o fewn eu grŵp er mwyn i'r cyfranogwyr deimlo'n hamddenol ac yn gyfforddus i roi cynnig ar weithgareddau newydd a heriol. Gall yr amgylchedd mynyddig ymddangos yn ddigroeso ar adegau a gall y gweithgarwch a'r tir ymddangos yn llethol i'r rhai sy'n anghyfarwydd â hyn.

Bydd oedran, gallu, gofynion unigol, hyder a lefelau egni ymhlith y grŵp yn galw am



ddulliau gwahanol er mwyn llwyddo. Mae sgiliau cyfathrebu da yn hollbwysig

Mae'r gallu i ddatblygu perthynas, cyfathrebu ar lefel briodol, defnyddio iaith gadarnhaol, darparu gwahanol dechnegau arddangos, cadarnhau dealltwriaeth drwy holi'n fedrus a rhoi adborth defnyddiol ac anogaeth i unigolion yn sail i addysgu effeithiol.

Yn ogystal â'r sgiliau cyfathrebu hyn, mae addysgu effeithiol yn ei gwneud yn ofynnol i Arweinwyr Mynydd allu arsylwi ac asesu galluoedd, lefelau hyder cyfranogwyr a deinameg grwpiau, ac addasu eu dull gweithredu yn unol â hynny.



See all Learning to Lead boxes

Pwyntiau ymarfer allweddol

- Datblygu cyfres o 'gynlluniau gwersi' ar gyfer addysgu tasgau cyffredin, er enghraifft pacio ar gyfer alltaith neu ganfod llwybr mewn tir mynyddig.
- Ystyried sut y gallech addysgu sgil penodol mewn arddull cyfarwyddiadol, uniongyrchol iawn a sut y byddech yn addysgu'r un sgil mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr. Beth fyddai manteision ac anfanteision pob un?
- Ystyried sut y gallech newid eich dull gweithredu mewn tywydd heriol.





Yr amgylchedd cerdded



Mae Arweinwyr Mynydd yn cyflwyno ac yn cefnogi pobl i gymryd rhan mewn teithiau cerdded, annog defnydd cynaliadwy ac ystyriol o'r awyr agored gan bob defnyddiwr. Byddant yn gallu:

10. Mynediad, cadwraeth a'r amgylchedd

- 10.1 Ysbrydoli ac ennyn brwdfrydedd eu grwpiau ar y mynyddoedd yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ac ehangu eu gwybodaeth*, eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth bersonol o amgylcheddau mynyddig.
- 10.2 Arddangos gwybodaeth am gytundebau mynediad caniataol, hawliau tramwy a deddfwriaeth mynediad, er enghraifft Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Deddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2003, a phwysigrwydd bod yn ymwybodol o gyfyngiadau mynediad a glynu atynt pan fo'n berthnasol.
- 10.3 Esbonio sut i gael gwybodaeth am fynediad i dir isel a gwybod sut, ac i bwy, y dylid adrodd problemau o ran mynediad.
- 10.4 Esbonio ymgyrchoedd a chodau ymarfer da perthnasol er enghraifft y Cod Cefn Gwlad, Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban a Peidiwch â Gadael Unrhyw Ôl o'ch Ymweliad, a chydabod cyfrifoldeb unigol i leihau effaith a hybu defnydd cynaliadwy o'r awyr agored.



10.5 Arddangos gwybodaeth am reoli tir yn y mynyddoedd ac effeithiau hirdymor y pwysau dynol sy'n cael ei greu drwy'r defnydd amrywiol a wneir ohonynt.

10.6 Arddangos gwybodaeth am ddeddfwriaeth gadwraeth berthnasol yn ogystal â natur ardaloedd dynodedig penodol a chyfyngiadau ar eu defnydd. Dylai Arweinwyr Mynydd allu dangos gwerthfawrogiad hefyd o'r heriau a natur gymhleth cadwraeth ar dir isel.

*mae enghreifftiau o wybodaeth bersonol berthnasol yn cynnwys planhigion, anifeiliaid, daeareg, prosesau tirffurf (geomorffoleg), hanes, treftadaeth leol, iaith, enwau lleoedd, llên gwerin, esblygiad ein tirwedd a heriau yn y dyfodol.

Nodiadau canllaw i ymgeiswyr

Mae'n bwysig bod gan Arweinwyr Mynydd cymwys wybodaeth gyffredinol gadarn am dir mynyddig. Bydd gallu arweinydd i siarad yn wybodus am ystod o bynciau yn ychwanegu'n fawr at daith yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd dysgu pan fyddant yn codi wrth i'r grŵp deithio drwy'r mynyddoedd. Mae buddiannau amrywiol i aelodau grŵp a gall hyn gynnwys:

- meithrin gwerthfawrogiad dyfnach o'r byd naturiol a'n hucheldiroedd
- pwysigrwydd cadwraeth a hamdden gynaliadwy, dealltwriaeth uwch o'r pwysau a'r cyfyngiadau a achosir gan y defnydd amrywiol a wneir o'r tir a pherchnogaeth amrywiol
- dealltwriaeth o ddeddfwriaethau mynediad a threfniadau lleol
- gwerthfawrogiad uwch o ddiwylliant a threftadaeth leol ac iaith

Gellir defnyddio'r gallu i addysgu grwpiau ar bynciau amrywiol hefyd fel strategaeth arweinyddiaeth gynnil ac effeithiol gan y bydd yn galluogi arweinydd i oedi'r daith gerdded i roi seibiant i aelodau'r grŵp neu i gadw'r grŵp gyda'i gilydd heb dynnu sylw unigolion, neu atal sefyllfaoedd rhag datblygu o fewn y grŵp. Gall defnydd o dir mewn ardaloedd mynyddig gynnwys hamdden, cnydau â'r ffermio da byw, coedwigaeth, trin dŵr, gweithrediadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, hela, saethu adar hela, adfer cynefinoedd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Gall pob un o'r rhain ffurfio pwnc trafod diddorol i grŵp cyn, yn ystod neu ar ôl taith.

Dylai Arweinwyr Mynydd fod yn ymwybodol o effaith cynnydd mewn gweithgarwch hamdden, gan gynnwys erydiad llwybrau, gwrthdaro rhwng gwahanol weithgareddau hamdden a'r effaith ar gymunedau.



Fel gofyniad sylfaenol, dylai unrhyw grŵp sy'n cael ei arwain gydymffurfio â chodau arfer da, cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar fynediad ac unrhyw drefniadau lleol sy'n bodoli. Felly, dylai Arweinwyr Mynydd bob amser geisio gosod esiampyl dda, arddangos arfer da ac esbonio diben y codau a ddyluniwyd i leihau effaith defnydd hamdden ar yr amgylchedd ac ar gymunedau gwledig drwy annog mathau penodol o arferion.

Gallai ardaloedd â dynodiadau arbennig fod yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a gallai fod angen cydsyniad swyddogol neu y gwaherddir gweithgareddau yn yr ardaloedd hyn sy'n debygol o niweidio'r nodweddion naturiol y cafodd y safle ei ddynodi amdanynt.

O dro i dro, gallai grŵp sy'n cael ei arwain ddod ar draws cyfyngiad dros dro neu newid i'r trefniadau mynediad ar lwybr a ddewiswyd. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai Arweinwyr Mynydd fod yn gyfarwydd â chanfod gwybodaeth berthnasol yn ôl yr angen a'u bod yn gallu mabwysiadu agwedd hyblyg a diplomataidd er mwyn lleihau unrhyw wrthdaro. Mae ffynonellau gwybodaeth yn cynnwys: awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol lleol, fforymau mynediad lleol, fforymau mynediad cenedlaethol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, tywyslyfrau, mapiau, asiantaethau cefn gwlad, y rhynggrwyd, apiau a chynghorau mynydda. Yn ogystal, dylai Arweinwyr Mynydd gydnabod bod gan bob cerddwr rôl i gynnal mynediad, yn arbennig mewn sefyllfaoedd pan nad yw mynediad wedi'i ddiffinio'n glir.

Oherwydd y bydd pob ymgeisydd yn aelodau o'r cyngor mynydda, disgwylir eu bod yn gyfarwydd â'r gwaith a wneir gan y cynghorau ar fynediad, cadwraeth a'r amgylchedd.



Chapter 6 Where can we go?

Chapter 7 Protecting it for the future

Chapter 8 Understanding the environment





11. Gwybodaeth gefndir

11.1 Esboniwch rôl ac ethos Mountain Training a'i gynlluniau, y cyngorau mynydda a chlybiau cerdded. Mae angen arddangos ymwybyddiaeth o hanes, traddodiadau a moeseg cerdded hamdden yn y DU ac Iwerddon.

Mountain Training

Y rhwydwaith o gyrff dyfarnu sy'n gweinyddu cyrsiau sgiliau a chymwysterau arweinyddiaeth. Darparwyr cymeradwy sy'n cynnal y cyrsiau.

Cyngorau Mynydda

Mae'r cyngorau yn diogelu buddiannau cerddwyr, dringwyr a mynyddwyr a'r clogwyni, y brynau a'r mynyddoedd maent yn eu mwynhau.



Cymdeithas Mountain Training

Cymdeithas aelodaeth Mountain Training sy'n darparu cymorth a chyfleoedd datblygu i hyfforddeion ac ymgeiswyr cymwys.



Nodiadau canllaw i ymgeiswyr

Nid yw natur cerdded fel gweithgarwch hamdden yn galw am system lywodraethiant ffurfiol, fodd bynnag, mae llawer o gymorth ar gael i bob cerddwr, sy'n cynnwys sefydliadau cenedlaethol Mountain Training, Cymdeithas Mountain Training a'r cyngorau mynydda, ymhlith sefydliadau eraill. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi ac yn galluogi gweithgarwch yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar draws y sbectrwm, o grwpiau ieuenctid a digwyddiadau her i oedolion annibynnol a hyfforddwyr proffesiynol.

Mae elfen Mountain Training o'r rhwydwaith hwn yn darparu hyfforddiant sgiliau a chymwysterau arweinyddiaeth a gydnabyddir yn genedlaethol, yn ogystal â gwybodaeth am arfer da drwy ystod o gyhoeddiadau. Ennill cymhwyster Mountain Training yw ffurfioli eich profiad a'ch cymhwysedd i fod yn gyfrifol am eraill wrth wersylla, cerdded, dringo neu fynydda. Drwy rwydwaith o ddarparwyr cyrsiau cymeradwy ar draws y DU ac Iwerddon, mae 10,000 a mwy o ymgeiswyr yn mynychu cwrs Mountain Training bob blwyddyn ac yn mynd ymlaen i arwain ac ysbrydoli miliynau o bobl. Mae gweledigaeth, cenhadaeth ac ethos Mountain Training yn sail i bob penderfyniad a gweithgarwch.

Gall ymgeiswyr ymuno â Chymdeithas Mountain Training (MTA) fel Hyfforddai neu aelod Llawn. Drwy ymuno â'r gymdeithas cewch fynediad at gyfleoedd hyfforddi i gefnogi eich datblygiad a dod yn rhan o gymuned o arweinwyr dan hyfforddiant ac arweinwyr cymwys sydd â diddordeb a rennir.

Drwy ddarparu cyfleoedd datblygiad personol o'r safon uchaf, gan gynnwys gweithdai, gweminarau a chylchgrawn chwarterol, mae Cymdeithas Mountain Training yn cefnogi ac yn datblygu ei aelodau i ragori.

Mae Cyngor Mynydda Prydain (BMC), Mountaineering Scotland Mountaineering Ireland yn gweithio i ddiogelu buddiannau cerddwyr, dringwyr a mynyddwyr a'r clogwyni, bryniau a'r mynyddoedd y maent yn eu mwynhau. Heb eu gwaith hwy, byddai mynediad i'r mannau hyn yn cael ei leihau i bawb, gan gynnwys i arweinwyr a hyfforddwyr. Drwy ymuno â chyngor mynydda, rydych yn helpu i sicrhau'r mynediad hwn heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Gall clybiau a sefydliadau cerdded bryniau fod yn ddefnyddiol i dywys cyfranogwyr i gyfranogiad annibynnol tymor hir; maent yn cynnwys clybiau lleol neu genedlaethol sefydledig a grwpiau ar-lein llai ffurfiol. Fel arweinydd, mae'n bosibl y bydd cerddwyr dibrofiad yn gofyn am gyngor gennych ar sut i ganfod pobl eraill i gerdded gyda hwy a sut i ddatblygu hyder a chymhwysedd. Gall eich gallu i'w cyfeirio at gyrsiau priodol, er enghraifft cynllun Sgiliau Bryniau a Mynydd Mountain Training neu arweiniad ar ganfod clwb arwain at fwynhad am oes.



Atodiad 1 – Diffiniadau

Tir mynyddig

At ddiben y cynllun Arweinydd Mynydd, gellir diffinio ‘tir mynyddig’ fel ardal o dir gwyllt a allai gynnwys tir serth a chreigiog anochel lle bydd cerddwyr yn ddibynnol arnyn nhw eu hunain am gymorth ar y pryd. Yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon mae tir mynyddig yn cynnwys:

- Ardal y Llynnoedd
- Ucheldiroedd y Gogledd-orllewin
- Ucheldiroedd Canolog
- Mynyddoedd Grampian (Ucheldiroedd y Dwyrain a'r Canol)
- Ucheldiroedd y De
- Ucheldiroedd a'r Ynysoedd Gorllewinol
- Gogledd a'r Gogledd Pell
- Mynyddoedd Mourne
- Mynyddoedd Galloway
- Mynyddoedd Cork a Kerry
- Mynyddoedd Galway a Mayo
- Mynyddoedd Donegal
- Mynyddoedd Dulyn a Wicklow
- Eryri
- Bannau Brycheiniog

Diwrnod mynydd o safon

Dylid cynnal ‘Diwrnod Mynydd o Safon’ i’r Arweinydd Mynydd ar dir mynyddig yn y DU neu Iwerddon.

Mae safon diwrnod mynydd i’w gweld mewn pethau fel y profiad o amodau uwchben a dan draed, archwilio ardaloedd newydd, y tir dan draed a’r her gorfforol a meddyliol. Dylai profiad diwrnod o safon gyfrannu at wybodaeth, datblygiad personol a chaffael sgiliau cysylltiedig.

Dylid bodloni’r holl feini prawf canlynol:

- yr unigolyn yn cymryd rhan yn y gwaith cynllunio ac arweinyddiaeth.
- archwilir ardal anghyfarwydd.
- byddai cerdded i gopa mynydd sylweddol yn cael ei gynnwys.



- mae angen sgiliau pennu'r ffordd.
- mae gwybodaeth yn cael ei chynyddu a'r sgiliau perthnasol yn cael eu hymarfer
- mae angen barn a gwneud penderfyniadau.
- mae'r daith yn bum awr neu'n fwy.

Mae'r meini prawf hyn yn golygu bod diwrnodau fel aelod o gwrs dan arweiniad, aelod o grwp yn ymarfer sgiliau, neu ddyddiau a dreulir yn ailadrodd llwybrau cyfarwydd yn annhebygol iawn o fodloni gofynion diwrnod o safon.

Gwersylla gwyllt

Bydd cerddwyr yn gwersylla'n wyllt ar dir rhostir neu fynyddig yn bell o ffyrdd ac aneddleoedd. Gall gwersylla gwyllt gael effaith andwyol ar yr ardal drwy sathru ar lystyfiant a llygredd drwy wastraff bwyd a gwastraff dynol. Felly, mae angen gwneud hyn mewn ffordd sensitif, drwy gyfuniad sensitif o ofalu am yr amgylchedd a mwynhad personol.

Amodau haf a gaeaf

Defnyddir y term 'amodau haf' i ddisgrifio unrhyw amodau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y term 'amodau gaeaf'.

Gellir diffinio 'amodau gaeaf' fel cyfnod pan fydd eira a rhew ac mae teithio yn galw am y sgiliau a'r offer sydd eu hangen i ymdopi â pheryglon arbennig amodau gaeaf. Mae cynllun Arweinydd Mynydd Gaeaf Mountain Training yr Alban yn darparu hyfforddiant ac asesiad penodol ar gyfer amodau gaeaf ym mrynau a mynyddoedd y DU ac Iwerddon.

Ni ellir diffinio'r naill derm na'r llall gan gyfran o'r flwyddyn, h.y. gall 'amodau haf' fodoli yn ystod misoedd y gaeaf; yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd eira a rhew helaeth, yn arbennig yn ardaloedd mynyddoedd uchel yr Alban, ac felly 'amodau gaeaf', yn bodoli ymhell i mewn i'r haf.



Gwelededd gwael/tywyllwch

Defnyddir y termau 'gwelededd gwael' a/neu 'dywyllwch' i ddisgrifio sefyllfaoedd lle bydd llinell golwg unigolyn, h.y. pa mor bell y gallant weld, eu bod wedi'u cyfyngu o bosibl gan y tywydd (e.e. niwl/cymylau isel, glaw trwm), yr amgylchedd (e.e. coetir blanhigfa, tir tonnog cymhleth) a/neu'r amser o'r dydd (e.e. gyda'r nos).

Gall unrhyw gyfuniad o'r rhain neu bob un ohonynt gyfyngu llinell golwg unigolyn yn ddifrifol, a fydd yn galw am sgiliau pennu'r ffordd arbenigol i lywio eu taith yn ddiogel ac effeithlon. Nid yw'r nos ynddo'i hun yn golygu tywyllwch. Yn ystod misoedd yr haf yn yr Alban, os bydd yr awyr yn glir, nid yw byth yn mynd yn dywyll iawn. Yn yr un modd, mewn tywydd clir gyda lleuad lawn mae'n annhebygol y bydd yn ddigon tywyll i olygu dibyniaeth ar dechnegau a sgiliau arbenigol i bennu'r ffordd.

Tir serth

Mae Mountain Training yn disgrifio 'tir serth' fel tir cymhleth lle bydd profiad cerddwyr i ganfod llwybr diogel yn hanfodol, a bydd penderfyniadau ar reoli diogelwch ar stepiau neu rannau amlwg yn galw am grebwyll a rhagwelediad. Gallai tir serth gynnwys tir toredig, yn aml gyda llystyfiant yn tyfu arno gyda chyfran deg o greigiau gweladwy, a allai fod yn rhydd, lle gallai canlyniadau llithriad neu gwmpod fod yn ddifrifol.





Atodiad 2 - Gwybodaeth ychwanegol

Profiad o arweinyddiaeth

Mae dyddiau a dreulir yn arwain grwpiau, gan gynnwys grwpiau cyfoedion, yn brofiad gwerthfawr a gellir eu cyfrif fel dyddiau mynydd o safon cyhyd â'u bod yn cyflawni meini prawf dyddiau o safon, sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau ar gyfer y grŵp ac nad ydynt yn ailadrodd llwybrau. Mae'r profiad hwn yn talu ar ei ganfed mewn asesiad.

Mae dyddiau o gynorthwyo arweinydd mwy profiadol yn fuddiol iawn hefyd ond nid ydynt yn cyfrif fel dyddiau o safon (a dylid eu cofnodi ar wahân). Er eich bod yn cynorthwyo arweinydd, hwy sy'n gwneud penderfyniadau yn y pen draw a hwy sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol; mae'n bosibl y byddwch yn cael profiad o weld sut i reoli grwpiau ond ni fydd eich galluoedd personol chi yn cael eu hymestyn.

Profiad dramor

Er y gall profiad dramor fod yn arwydd defnyddiol o brofiad, dylai'r dyddiau hyn, os ydych yn eu defnyddio fel rhan o'ch 'dyddiadau o safon' y byddwch yn eu cofnodi, dylent fod ar dir ac mewn amodau tebyg i'r rhai a ganfyddir yn y DU ac Iwerddon er mwyn bod yn wirioneddol berthnasol i baratoi ar gyfer asesiad.

Gellir cofnodi profiad a geir mewn ardaloedd ar wahân i'r DU ac Iwerddon os byddant wedi'u cynnal mewn amodau tebyg i'r rhai yn y DU ac Iwerddon.

Fodd bynnag, dylai'r rhan fwyaf o'ch profiad, o leiaf 50% o'r gofynion sylfaenol, fod yn y DU ac Iwerddon.

Cynnal cyrsiau

Mae cyrsiau Mountain Training yn cael eu cynnal gan ddarparwyr cymeradwy ar hyd a lled y DU ac Iwerddon. Bydd darparwyr cyrsiau Arweinydd Mynydd yn penodi cyfarwyddwr cwrs ar gyfer pob cwrs.

Gallwch ddod o hyd i gyrsiau drwy edrych ar y System Rheoli Ymgeiswyr (CMS) <https://mt.tahdah.me> neu ar ein gwefan <http://www.mountain-training.org/find/find-a-course>.

Bydd canlyniad eich hyfforddiant a'ch asesiad yn cael ei gofnodi ar y System Rheoli Ymgeiswyr (CMS).



Eithriad o hyfforddiant

Gall ymgeiswyr sydd â phrofiad personol sylweddol eisoes o dir isel, yn ogystal â phrofiad o arwain grwpiau, wneud cais i gael eu heithrio o'r hyfforddiant. I fod yn gymwys i gael eu heithrio, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod wedi cyflawni'r gofynion profiad sylfaenol o leiaf ar gyfer mynychu cwrs asesu. Dylai fod ganddynt o leiaf dwy flynedd o brofiad diweddar o arwain grwpiau a gwersylla gwyllt ym mynyddoedd y DU ac Iwerddon.

Mae manylion pellach am y broses eithrio ar gael ar wefan Mountain Training.

Ni ellir eithrio o asesiad.

Gwybodaeth bellach

Ar ôl i chi basio'r asesiad Arweinydd Mynydd, chi fydd yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r arfer da cyfredol a diweddaraf cyhyd ag y byddwch yn defnyddio eich cymhwyster. Byddai Mountain Training yn eich annog i neilltuo rhywfaint o amser yn rheolaidd i'ch datblygiad fel cerddwr ac fel Arweinydd Mynydd.

Yn ôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gellir arddangos cymhwysedd arweinwyr mewn pedair ffordd, sef:

- meddu ar y cymhwyster perthnasol
- meddu ar gymhwyster cyfatebol
- bod wedi derbyn hyfforddiant mewnol priodol
- cymhwyso drwy brofiad

Mae Mountain Training yn cymeradwyo'r farn hon, ac yn pwysleisio bod cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol yn elfennau allweddol mewn dull gweithredu o'r fath.

Gellir parhau i fod yn gyfredol a chymwys mewn ffyrdd amrywiol, ac un o'r rhain yw ymuno â chymdeithas.

Mae Cymdeithas Mountain Training yn gymdeithas aelodaeth a grëwyd i gefnogi ymgeiswyr dan hyfforddiant ac ymgeiswyr cymwys drwy ddarparu mynediad at weithdai datblygu, cynadleddau a digwyddiadau dysgu drwy gyfoedion ymhlith buddiannau eraill yr aelodau.



Mountain Training Association

Mae ein cymdeithas yn sefydliad aelodaeth a all eich helpu wrth i chi weithio tuag at un o'n cymwysterau.

Fel cymdeithas aelodaeth rydym yn adeiladu cymuned o arweinwyr, hyfforddwyr a hyfforddwyr hyderus ac arbenigol, y gobeithiwn y byddwch yn ymuno â hi.

Gallwn eich helpu gyda:

- Arbedion mawr ar offer a chyfarpar
- Amrywiaeth eang o weithdai datblygu achrededig, digwyddiadau a chyfleoedd
- Mentora arbenigol ar gyfer eich cymhwyster
- Rhwydweithiau rhanbarthol a chyfleoedd i feithrin cysylltiadau ag eraill yn y sector
- Cylchgrawn chwarterol The Professional Mountaineer sy'n cynnig cyngor, awgrymiadau ac arweiniad ar weithio a/neu wirfoddoli yn y sector gan gymheiriaid yn y proffesiwn
- Cyfraddau a drafodwyd yn arbennig ar gyfer yswiriant atebolrwydd ar gyfer aelodau cymwys

Gall unrhyw un ymuno o'r funud y maent yn cofrestru ar gyfer cymhwyster Mountain Training, a gallant ymuno unrhyw bryd wrth weithio tuag at gymhwyster neu pan fyddant wedi cymhwyso.

Ymunwch trwy'ch cyfrif ar System Rheoli Ymgeiswyr Mountain Training (Tahdah - CMS).

"Mae'r gweithdai rydw i wedi'u gwneud wedi bod yn wych ac yn bendant wedi fy ngwneud yn arweinydd gwell" Alex, aelod o'r Gymdeithas.

"Mae'r Gymdeithas yn cynnig ystod ragorol o DPP, sydd wedi rhoi dealltwriaeth ehangach i mi o'r rôl, y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i fod yn arweinydd gwych. Argymell yn bendant.." Charlie, aelod o'r Gymdeithas.